*Mae'r Offeryn Statudol hwn wedi ei gyhoeddi yn lle'r OS o'r un rhif nad oedd yn adlewyrchu'r fersiwn a lofnodwyd gan un o Weinidogion Cymru oherwydd camgymeriadau wrth rifo paragraffau yn rheoliadau 5 a 6. Mae hefyd yn cywiro'r ffaith fod yr ail bennawd pwnc ar dudalennau 1 a 2 wedi ei hepgor, ac yn mewnosod y cyfieithiadau Cymraeg a hepgorwyd o'r diffiniadau yn rheoliadau 5(2)(b) a 6(4) o'r testun Saesneg. Mae hefyd yn cynnwys troednodiadau ychwanegol yn rheoliad 5. Caiff ei ddyroddi'n rhad ac am ddim felly i bawb y gwyddys eu bod wedi cael yr Offeryn Statudol hwnnw.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 456 (Cy. 109)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU
# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

| | |
|---|---|
| *Gofynion sifftio wedi eu bodloni - - - -* | *18 Chwefror 2019* |
| *Gwnaed - - - -* | *4 Mawrth 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *6 Mawrth 2019* |
| *Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1* | |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i, Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**).

Mae gofynion paragraff 4(2) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno (mewn perthynas â gweithdrefn graffu briodol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y Rheoliadau hyn) wedi eu bodloni.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 a deuant i rym ar y diwrnod ymadael.

### Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992

**2.** Yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992(**2**)—

(a) hepgorer y diffiniad o "EEA State";

(**1**) 2018 p. 16.
(**2**) O.S. 1992/666, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/3050, 2016/645. Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(b) yn y diffiniad o "statutory undertaker"—

(i) yn lle'r geiriau "European licence" rhodder "railway undertaking licence";

(ii) hepgorer y geiriau o "or pursuant" hyd at "a single European railway area (recast)".

**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005**

**3.** Yn rheoliad 13(1) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005(**3**)—

(a) yn is-baragraff (c) hepgorer "drwy fynd ar drywydd yr amcanion hynny drwy'r rheolaethau a ddisgrifir yn Erthygl 13 o Gyfarwyddeb 2012/18/EU";

(b) yn lle is-baragraff (iii) o baragraff (ch) rhodder—

"(iii) yn achos sefydliadau sy'n bodoli eisoes, i hwyluso ac annog gweithredwyr i gymryd pob mesur angenrheidiol i atal damweiniau mawr ac i gyfyngu ar eu canlyniadau ar gyfer iechyd dynol a'r amgylchedd."

**Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012**

**4.** Yn Atodlen 4 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012(**4**)—

(a) yn y tabl, ym mharagraff (w), yn y golofn sy'n dwyn y pennawd "Disgrifiad o'r Datblygiad" yn is-baragraff (ii) yn lle'r geiriau o "sydd o fewn cwmpas" hyd at "2012/18/EU" rhodder "a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol hysbysu amdano o dan reoliad 6(6) o Reoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr 2015(**5**)";

(b) o dan y pennawd Dehongli'r Tabl, yn lle paragraff (m)(i) rhodder—

"(i) mae i'r ymadroddion "damwain fawr" a "sefydliad" fel y maent yn ymddangos yn y paragraff hwnnw yr un ystyron yn eu trefn â "*major accident*" ac "*establishment*" yn rheoliad 2 o Reoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr 2015."

**Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Cymru) 2015**

**5.**—(1) Mae Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Cymru) 2015(**6**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)—

(a) yn y diffiniad o "y Gyfarwyddeb" ar ôl "sylweddau peryglus" mewnosoder "fel y cafodd effaith yn union cyn y diwrnod ymadael";

(b) mewnosoder y diffiniadau canlynol yn y mannau priodol—

"mae i "damwain fawr" yr ystyr a roddir i "*major accident*" yn Erthygl 3(13) o'r Gyfarwyddeb fel y cafodd effaith yn union cyn y diwrnod ymadael;";

"ystyr "y Gyfarwyddeb AEA" ("*the EIA Directive*") yw Cyfarwyddeb 2011/92/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 13 Rhagfyr 2011 ar yr asesiad o effeithiau prosiectau cyhoeddus a phreifat penodol ar yr amgylchedd fel y cafodd effaith yn union cyn y diwrnod ymadael;".

(3) Yn rheoliad 6(1)(a)—

(**3**) O.S. 2005/2839 (Cy.203) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2015/1597. Mae diwygiadau eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.
(**4**) O.S. 2012/801 (Cy.110) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2016/59.
(**5**) O.S. 2015/483, y mae diwygiadau iddo ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.
(**6**) O.S. 2015/1597 (Cy.196), y mae diwygiadau iddo ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(a) Ym mharagraff (ii) yn lle'r geiriau o "neu ymgyngoriadau" hyd at ddiwedd y paragraff rhodder "(y mae i "asesiad effaith amgylcheddol cenedlaethol neu drawsffiniol" yr un ystyr â "*national or transboundary environmental impact assessment*" mewn unrhyw ddarpariaeth yng nghyfraith yr UE a ddargedwir a oedd yn gweithredu'r Gyfarwyddeb AEA)(**7**)";

(b) ar ôl paragraff (ii) mewnosoder—

"(iia) pan fo'n gymwys, y ffaith bod y prosiect y mae'r cynnig yn ymwneud ag ef yn un y mae'n ofynnol i'r awdurdod COMAH cymwys ymgynghori ag unrhyw wlad yn unol â Rheoliad 20 o Reoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Difrifol 2015(**8**);".

(4) Yn rheoliad 10(3)(a)—

(a) ym mharagraff (ii) yn lle'r geiriau o "neu ymgyngoriadau" hyd at ddiwedd y paragraff rhodder "(y mae i "asesiad effaith amgylcheddol cenedlaethol neu drawsffiniol" yr un ystyr â "*national or transboundary environmental impact assessment*" mewn unrhyw ddarpariaeth yng nghyfraith yr UE a ddargedwir a oedd yn gweithredu'r Gyfarwyddeb AEA)"(**9**);

(b) ar ôl paragraff (ii) mewnosoder—

"(iia) pan fo'n gymwys, y ffaith bod y prosiect y mae'r cynnig yn ymwneud ag ef yn un y mae'n ofynnol i'r awdurdod COMAH cymwys ymgynghori ag unrhyw wlad yn unol â Rheoliad 20 o Reoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Difrifol 2015;".

(5) Yn rheoliad 26, ar ddiwedd paragraff (1)(b) mewnosoder "(gan ddarllen y cyfeiriad yn is-baragraff (c) o'r Erthygl honno at Erthygl 5 fel cyfeiriad at reoliad 5 o Reoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr 2015)".

(6) Yn rheoliad 27(4) yn y diffiniad o "cynllun neu raglen berthnasol" yn y ddau is-baragraff (a) a (b), ar ôl "yn unol ag" mewnosoder "unrhyw ddarpariaeth yng nghyfraith yr UE a ddargedwir a oedd yn gweithredu(**10**)".

(7) Yn rheoliad 28(2)(a)—

(a) ym mharagraff (ii) yn lle'r geiriau o "neu ymgyngoriadau" hyd at ddiwedd y paragraff rhodder "(y mae i "asesiad effaith amgylcheddol cenedlaethol neu drawsffiniol" yr un ystyr â "*national or transboundary environmental impact assessment*" mewn unrhyw ddarpariaeth yng nghyfraith yr UE a ddargedwir a oedd yn gweithredu'r Gyfarwyddeb AEA)(**11**)";

(b) ar ôl paragraff (ii) mewnosoder—

"(iia) pan fo'n gymwys, y ffaith bod y prosiect y mae'r cynnig yn ymwneud ag ef yn un y mae'n ofynnol i'r awdurdod COMAH cymwys ymgynghori ag unrhyw wlad yn unol â Rheoliad 20 o Reoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Difrifol 2015;".

**Darpariaeth Drosiannol**

**6.**—(1) Am y cyfnod o 2 flynedd gan ddechrau ar y diwrnod ymadael, mae unrhyw gyfeiriad yn rheoliad 2 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992 at "railway undertaking

(**7**) Gweithredwyd Cyfarwyddeb 2011/92/EU gan Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017 (O.S. 2017/567 (C.136)).

(**8**) O.S. 2015/483 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2018/1370. Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonnynt yn berthnasol.

(**9**) Gweithredwyd Cyfarwyddeb 2011/92/EU gan Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017 (O.S. 2017/567 (C.136)).

(**10**) Gweithredwyd Cyfarwyddeb 2012/18/EU gan Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Cymru) 2015 (O.S. 2015/1597 (C.196)).

(**11**) Gweithredwyd Cyfarwyddeb 2011/92/EU gan Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017 (O.S. 2017/567 (C.136)).

licence" (trwydded ymgymeriad rheilffordd) yn unol â Rheoliadau 2005 yn cynnwys cyfeiriad at drwydded Ewropeaidd berthnasol.

(2) Mae unrhyw weithred neu anweithred—

(a) mewn perthynas â thrwydded Ewropeaidd berthnasol, neu drwy ddibynnu arni, a

(b) sy'n cael effaith yn union cyn y diwrnod ymadael,

yn parhau i gael effaith ar neu ar ôl y diwrnod ymadael.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn—

mae i "DDdRhC" yr un ystyr ag "*SNRP*" yn Rheoliadau 2005(**12**);

ystyr "Rheoliadau 2005" ("*the 2005 Regulations*") yw Rheoliadau Rheilffyrdd (Trwyddedu Ymgymeriadau Rheilffyrdd) 2005(**13**);

mae i "trwydded Ewropeaidd" yr un ystyr â "*European licence*" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau 2005 (fel y'u haddaswyd gan reoliad 35 o Reoliadau Rheilffyrdd (Trwyddedu Ymgymeriadau Rheilffyrdd) (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019(**14**);

ystyr "trwydded Ewropeaidd berthnasol" ("*relevant European licence*") yw trwydded Ewropeaidd, y mae gan ei deiliad DDdRhC dilys nad yw wedi ei atal dros dro na'i ddirymu.

*Julie James*
Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru.

4 Mawrth 2019

(**12**) Mae Rheoliad 2 o Reoliadau 2005 yn darparu mai ystyr "SNRP" yw datganiad o ddarpariaethau rheoleiddiol cenedlaethol, a ddyroddir yn unol â rheoliad 10 o'r Rheoliadau hynny.

(**13**) O.S. 2005/3050, y mae diwygiadau iddo ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(**14**) O.S. 2019/700.

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i, Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p.16) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill yng nghyfraith yr UE a ddargedwir sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio—

(a) Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992;

(b) Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005;

(c) Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012; a

(d) Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Cymru) 2015.

Mae rheoliad 6 yn cynnwys darpariaeth drosiannol mewn perthynas â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.